

CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (NWYEIDDIO GLO TANDDAEAROL) (CYMRU) 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan erthyglau 18(1) a 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012⁽¹⁾, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Cychwyn

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 25 Mawrth 2016.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i (“*electronic communication*”) yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)⁽²⁾;

ystyr “datblygiad nweiddio glo tanddaearol” (“*underground coal gasification development*”) yw datblygiad sy'n gysylltiedig â nweiddio glo yn y strata (ond nid yw'n cynnwys gwneud tyllau turio yn unig at ddiben samplu creiddiol).

Cymhwyso

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir i awdurdod cynllunio lleol—

- (a) mewn perthynas â thir yng Nghymru;
- (b) a wneir ar 25 Mawrth 2016 neu ar ôl hynny;
- (c) ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad nweiddio glo tanddaearol;
- (d) nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

Hysbysu Gweinidogion Cymru

4. Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad nweiddio glo tanddaearol, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

5. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

- (a) copi o'r cais (gan gynnwys copïau o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd, trafnidiaeth, sŵn neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;
- (b) copi o'r hysbysiad gofynnol;
- (c) copi o unrhyw sylwadau a wnaed i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegwyd gan adran o'r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);
- (d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a luniwyd gan swyddog o'r awdurdod;

⁽¹⁾ O.S. 2012/801 (Cy. 110).

⁽²⁾ 2000 p.7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

- (e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddwyd o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016⁽¹⁾;
- (f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhaliwyd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010⁽²⁾.

Y cyfnod perthnasol cyn y caiff awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio

6. Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaiff yr awdurdod roi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

7. Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod—

- (a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn cysylltiad â'r cais hwnnw; neu
- (b) nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad nwyeddio glo tanddaearol.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2016

(1) O.S. 2016/58 (Cy. 28).

(2) O.S. 2010/490, y ceir diwygiadau iddo.